# ADRODDIADAU ARHOLWYR

## LEFEL 3 TYSTYSGRIF/DIPLOMA MEWN GWYDDOR FEDDYGOL

## HAF 2023

© WJEC CBAC Ltd.

## Cyflwyniad

Mae adroddiadau'r Uwch Arholwyr yn rhoi adborth gwerthfawr ar y gyfres asesu ddiweddar. Yr Uwch Arholwyr a'r Uwch Safonwyr sy'n ysgrifennu'r dogfennau hyn ar ôl cwblhau'r marcio a'r safoni, ac maent yn cynnwys manylion ynghylch perfformiad ymgeiswyr.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb cyffredinol o berfformiad ymgeiswyr, gan gynnwys yr amcanion asesu/sgiliau/testunau/themâu sy'n cael eu profi, ac yn tynnu sylw at nodweddion perfformiad llwyddiannus a lle gellid gwella perfformiad. Yna mae'n mynd ati i edrych yn fanwl ar bob cwestiwn/adran o bob uned, gan nodi agweddau oedd yn heriol i rai ymgeiswyr ac awgrymu rhesymau posibl dros hynny.[i]

Gall y wybodaeth sydd i'w chael yn yr adroddiad hwn helpu ymarferwyr i feithrin dealltwriaeth werthfawr i gefnogi eu gweithgaredd addysgu a dysgu. Byddem hefyd yn annog ymarferwyr i rannu'r ddogfen hon – yn ei chyfanrwydd neu rannau ohoni – â'u dysgwyr i'w helpu i baratoi ar gyfer yr arholiadau, i ddeall sut i osgoi diffygion annisgwyl ac i ychwanegu at eu pecyn cymorth adolygu.

## Cefnogaeth bellach

| Dogfen | Disgrifiad | Cyswllt |
|---|---|---|
| Dysgu Proffesiynol / DPP | Mae CBAC yn cynnig rhaglen flynyddol eang o ddigwyddiadau Dysgu Proffesiynol wyneb yn wyneb ac ar-lein. Cofrestrwch ar gyfer un o'n digwyddiadau yma i weld adborth rhyngweithiol, adolygu ymatebion enghreifftiol gan ymgeiswyr, cael syniadau ymarferol ar gyfer yr ystafell ddosbarth a gofyn cwestiynau i'n tîm ymroddedig. | https://www.cbac.co.uk/home/dysgu-proffesiynol/ |
| Cyn-bapurau | Manteisiwch ar y banc o gyn-bapurau ar gyfer y cymhwyster hwn, gan gynnwys yr asesiadau mwyaf diweddar. Noder na fydd y cyn-bapurau ar gael ar y wefan gyhoeddus hyd nes 6 mis ar ôl yr arholiad. | www.wjecservices.co.uk neu ar y dudalen pwnc CBAC |
| Gwybodaeth am ffiniau graddau | Ffiniau graddau yw'r nifer isaf o farciau y mae eu hangen i ennill pob gradd.<br>Ar gyfer manylebau unedol, mynegir ffiniau graddau ar Raddfa Marciau Unffurf (GMU). Mae ffiniau graddau GMU yn aros yr un fath bob blwyddyn gan nad yw amrediad y canrannau marciau GMU a ddyrennir i radd benodol yn newid. Mae ffiniau graddau GMU yn cael eu cyhoeddi ar lefel gyffredinol y pwnc a'r uned.<br><br>Gyda manylebau llinol, dyfernir un radd am y pwnc yn gyffredinol, yn hytrach nag ar gyfer pob uned sy'n cyfrannu tuag at y radd gyffredinol. Cyhoeddir ffiniau graddau ar ddiwrnod y canlyniadau. | Ar gyfer manylebau unedol, cliciwch yma: Canlyniadau, Ffiniau Graddau a Gwasanaethau ar ôl y Canlyniadau (cbac.co.uk) |

© WJEC CBAC Cyf.

| | | |
|---|---|---|
| Dadansoddi Canlyniadau Arholiadau | Mae CBAC yn darparu gwybodaeth i ganolfannau arholiadau ar wefan ddiogel CBAC. Cyfyngir y ddarpariaeth hon i staff mewn canolfannau yn unig. Y Swyddog Arholiadau yn y ganolfan sy'n rhoi'r caniatâd i staff y ganolfan gyrchu'r wefan hon. | www.wjecservices.co.uk |
| Adnoddau Ystafell Ddosbarth | Manteisiwch ar ein hamrywiaeth eang o adnoddau ystafell ddosbarth RHAD AC AM DDIM, gan gynnwys deunyddiau dysgu cyfunol, adnoddau arweiniad i'r arholiad a threfnwyr gwybodaeth i gefnogi addysgu a dysgu. | https://adnoddau.cbac.co.uk/ |
| Banc o ddeunyddiau Dysgu Proffesiynol | Manteisiwch ar ein banc o ddeunyddiau Dysgu Proffesiynol o ddigwyddiadau blaenorol ar ein gwefan ddiogel a deunyddiau wedi'u recordio ymlaen llaw ychwanegol ar y wefan gyhoeddus. | www.wjecservices.co.uk neu ar y dudalen pwnc CBAC. |
| Dod yn arholwr gyda CBAC. | Rydym bob amser yn chwilio am arholwyr neu safonwyr newydd i'w recriwtio. Gall y cyfleoedd hyn eich helpu i feithrin dealltwriaeth werthfawr o'r broses asesu, gwella eich set sgiliau, gwella eich dealltwriaeth o'ch pwnc a llywio eich addysgu. | Dod yn Arholwr \| CBAC |

© WJEC CBAC Cyf.

| | Tudalen |
|---|---|
| **Crynodeb gweithredol** | 4 |
| **Uned** | |
| Uned 1 Iechyd a Chlefydau Dynol | 6 |
| Uned 2 Technegau Mesur Ffisiolegol | 11 |
| Uned 3 Dulliau Ymchwil | 14 |
| Uned 4 Meddyginiaethau a Thrin Clefydau | 17 |
| Uned 5 Technegau Labordy Clinigol | 21 |
| Uned 6 Astudiaeth Achos Feddygol | 23 |
| **Eich cefnogi chi – manylion cyswllt a chysylltau defnyddiol** | 27 |

© WJEC CBAC Cyf.

**Crynodeb Gweithredol y Swyddog Pwnc**

**Tystysgrif:** Roedd cyfanswm y cofrestriadau'n gymaradwy â 2022 ond yn fwy na dwbl y nifer yn 2019. Roedd mwyafrif mawr y garfan yn 17 mlwydd oed, a llai'n ailsefyll o gymharu â 2019. Ymhlith y garfan 17 oed, benywod yw'r mwyafrif o hyd – cyfran o 68.0%. Roedd marc cymedrig uned 1 ychydig bach yn uwch nag yn 2022. Doedd dim modd cymharu marc cymedrig uned 2 ag uned 2 gan fod yr uned wedi'i haddasu yn 2022. Roedd marc cymedrig uned 3 yn sefydlog o gymharu â 2019.

**Diploma**: Mae cynnydd mawr iawn wedi bod yn nifer y cofrestriadau o 389 yn 2019 i 1,044 yn 2023, er bod hyn ychydig bach yn is na nifer y cofrestriadau yn 2022 (1,150). Fel mewn blynyddoedd blaenorol, ymgeiswyr 18 oed oedd y grŵp oed mwyaf. Roedd cyfran uwch o fenywod 18 oed (73.9%) na gwrywod. Roedd y cymedrau wedi lleihau ychydig bach o gymharu â 2019.

| Meysydd i'w gwella | Adnoddau ystafell ddosbarth | Disgrifiad byr o'r adnodd |
|---|---|---|
| Uned 1 Pibellau gwaed | Y SYSTEM CYLCHREDIAD<br>HTTPS://RESOURCE.DOWNLOAD.WJEC.CO.UK/VTC/2021-22/EL21-22_14-21/CYM/Y-SYSTEM-GYLCHREDIAD.PDF | Trefnydd gwybodaeth |
| Uned 1 EEG | NIWROFFISIOLEG<br>HTTPS://RESOURCE.DOWNLOAD.WJEC.CO.UK/VTC/2021-22/EL21-22_14-13A/_CYM/2-3-NIWROFFISIOLEG.PDF | Trefnydd gwybodaeth |
| Uned 1 profion golwg | AWDIOLEG A DELWEDDU OFFTHALMIG<br>HTTPS://RESOURCE.DOWNLOAD.WJEC.CO.UK/VTC/2021-22/EL21-22_14-13A/_CYM/2-4-FFISIOLEG-AWDIOLEG.PDF | Trefnydd gwybodaeth |
| Uned 1 polysacaridau | Mae elfennau cemegol yn cael eu huno i ffurfio cyfansoddion biolegol<br>https://resource.download.wjec.co.uk/vtc/2021-22/el21-22_14-21/cym/cyfansoddion-biolegol_v2.pdf | Trefnydd gwybodaeth |
| Uned 1 dyblygu DNA | ASIDAU NIWCLËIG A'U SWYDDOGAETHAU<br>HTTPS://RESOURCE.DOWNLOAD.WJEC.CO.UK/VTC/2021-22/EL21-22_14-21/CYM/ASIDAU-NIWCL%C3%ABIG-A%27U-SWYDDOGAETHAU_V2.PDF | Trefnydd gwybodaeth |
| Uned 1 cymalau | Systemau cyhyrsgerbydol<br>https://resource.download.wjec.co.uk/vtc/2021-22/el21-22_14-21/cym/y-system-gyhyrsgerbydol.pdf | Trefnydd gwybodaeth |

© WJEC CBAC Cyf.

| | | |
|---|---|---|
| Uned 2 Egwyddorion ECG, monitro pwysedd gwaed ac anterth llif | MESUR FFISIOLEGOL:FFISIOLEG GARDIAIDD<br>HTTPS://RESOURCE.DOWNLOAD.WJEC.CO.UK/VTC/2021-22/EL21-22_14-13A/_CYM/2-1-FFISIOLEG-GARDIAIDD.PDF<br><br>MESUR FFISIOLEGOL: FFISIOLEG RESBIRADOL<br>HTTPS://RESOURCE.DOWNLOAD.WJEC.CO.UK/VTC/2021-22/EL21-22_14-13A/_CYM/2-2-FFISIOLEG-RESBIRADOL.PDF | Trefnydd gwybodaeth |
| Uned 2 Nodiadau canllawiau i athrawon | https://www.cbac.co.uk/umbraco/surface/blobstorage/download?nodeId=3987 | Nodiadau canllawiau ar gyfer athrawon |
| Uned 3 newidynnau | Deall dulliau ymchwil<br>https://resource.download.wjec.co.uk/vtc/2021-22/el21-22_14-13b/pdf/_cym/3-1-dulliau-ymchwil.pdf | Trefnydd gwybodaeth |
| Uned 4 Triniaethau canser | Trin canser<br>https://resource.download.wjec.co.uk/vtc/2021-22/el21-22_14-13b/pdf/_cym/4-3-trin-canser.pdf | Trefnydd gwybodaeth |
| Uned 6 – staenio Gram | Adeiledd a thwf microbau<br>https://resource.download.wjec.co.uk/vtc/2021-22/el21-22_14-13c/pdf/_cym/5-5-technegau-microbioleg-adeiledd-twf-microorganebau.pdf | Trefnydd gwybodaeth |

© WJEC CBAC Cyf.

**GWYDDOR FEDDYGOL**

**Lefel 3 UNED 1**

**Haf 2023**

**IECHYD A CHLEFYDAU DYNOL**

**Trosolwg o'r uned**

- Uned 1 yw'r uned arholiad a asesir yn allanol ar gyfer y Dystysgrif Gwyddor Feddygol. Mae'n werth 50% o gyfanswm marciau'r cymhwyster hwn. Mae ymgeiswyr yn cael erthygl wedi'i rhyddhau ymlaen llaw bedair wythnos cyn yr arholiad i weithio drwyddi.
- Mae'r cwestiynau yn Adran A y papur arholiad yn seiliedig ar yr erthygl sydd wedi'i rhyddhau ymlaen llaw. Gallai'r cwestiynau hyn ofyn am gynnwys sydd i'w gael yn uniongyrchol yn yr erthygl, gallent ofyn i ymgeiswyr gymhwyso eu gwybodaeth, neu gallent gyflwyno uned arall o waith sy'n gysylltiedig â'r hyn sydd yn yr erthygl sydd wedi'i rhyddhau ymlaen llaw. 25 yw'r marc uchaf am yr adran hon. Eleni roedd 24 marc ar gael yn Adran A. Mae'n gallu cynnwys y cynnwys o Unedau 1, 2 neu 3.
- Mae Adran B wedi'i gwneud o gwestiynau sy'n seiliedig ar fanyleb unedau 1, 2 a 3. Mae'r cwestiynau'n profi amrywiaeth o sgiliau gan gynnwys galw i gof uniongyrchol, dadansoddi, gwerthuso a sgiliau mathemategol eraill. Eleni roedd Adran B yn werth 66 marc.
- Dim ond nifer bach o'r ymgeiswyr na wnaethant roi cynnig ar bob cwestiwn ac roedd yn amlwg bod yr holl ymgeiswyr wedi cael digon o amser i gwblhau'r papur. Roedd llawer o ymgeiswyr wedi methu mynegi eu hunain yn glir ac roedd diffyg terminoleg neu benodolrwydd priodol yn yr atebion; roedd hyn yn broblem mewn sgriptiau cyfrwng Cymraeg a Saesneg eto eleni. Mae blaen y papur arholiad yn atgoffa ymgeiswyr bod angen Cymraeg/Saesneg da. Gwelwyd diffyg manylder gwyddonol a defnyddio terminoleg wyddonol addas yn y cwestiynau ateb estynedig; roedd hyn yn cyfyngu ar nifer y marciau oedd ar gael i rai ymgeiswyr.
- Roedd yn amlwg bod llawer o'r ymgeiswyr yn cael anhawster â phroblemau mathemategol syml unwaith eto eleni.
- Braf oedd gweld bod gan y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr gyfarpar priodol h.y. pensil a phren mesur i'w defnyddio i luniadu'r graff, er bod canran mawr o'r ymgeiswyr eto wedi dewis y math anghywir o graff.

**Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol**

**Adran A**

- Cafodd ymgeiswyr erthygl wedi'i rhyddhau ymlaen llaw yn sôn am Feigrynnau eleni.
- Roedd angen i'r ymgeiswyr ddefnyddio gwybodaeth o'r erthygl wedi'i rhyddhau ymlaen llaw i ateb cwestiynau 1, 2, 4a, 5a a 7. Gwnaed hyn yn dda iawn ar y cyfan, a chafodd ymgeiswyr lawer o farciau am bob un heblaw cwestiwn 7 lle roedd angen iddyn nhw gymhwyso gwybodaeth oedd wedi dod o'r erthygl.
  Mae ymgeiswyr yn gallu dod o hyd i wybodaeth a dewis gwybodaeth gywir o'r erthygl wrth ateb, sy'n dangos bod canolfannau ac ymgeiswyr wedi treulio amser yn gweithio drwy'r erthygl cyn yr arholiad. Roedd hyn yn galonogol.
- Ni atebwyd cwestiwn 7 cystal, ac roedd llawer o ymgeiswyr yn cael trafferth i gymhwyso eu gwybodaeth o'r erthygl i fynegi ateb cywir. Un enghraifft o hyn oedd 7a lle roedd niferoedd mawr o ymgeiswyr yn dweud y byddai cleifion yn gyndyn i ddefnyddio meddyginiaeth neu driptanau am eu bod nhw'n achosi i'r pibellau gwaed yn yr ymennydd gulhau ac y gallai hynny achosi strôc.

© WJEC CBAC Cyf.

Yma, roedd ymgeiswyr wedi colli'r ffaith mai dim ond culhau i'w cyflwr arferol mae'r pibellau gwaed ar ôl meigryn; dydyn nhw ddim yn culhau mwy na hynny. Wrth sôn am TMS (7c) doedden nhw ddim yn cysylltu'r math hwn o driniaeth â bod yn anhysbys neu y gallai'r impwls trydanol ddychryn cleifion.

- Roedd cwestiynau 3, 4bi a 4bii yn gwneud cysylltiad ag uned 2/3. Roedd yr erthygl wedi'i rhyddhau ymlaen llaw'n cynnwys gwybodaeth am wahanol brofion ffisiolegol sy'n cael eu cynnal i helpu i roi diagnosis o feigryn.
  Roedd ymgeiswyr yn gallu cofio prawf sy'n mesur gweithgarwch yr ymennydd (EEG) ar gyfer 3a ond yna'n methu disgrifio'n llawn sut mae'r prawf hwn yn cael ei gynnal. Roedd ymgeiswyr yn methu nodi bod 'synwyryddion' yn cael eu gosod ar y pen neu groen y pen, ac yn rhoi disgrifiadau sylfaenol iawn o 'osod chwiliedyddion/nodau ar yr ymennydd'. Doedden nhw ddim ychwaith yn gallu disgrifio egwyddor y prawf o ran cofnodi a dadansoddi'r wybodaeth a gasglwyd yn ystod y prawf. Wrth enwi cyflwr arall y gallai EEG roi diagnosis ohono roedd eu hatebion yn amwys e.e. canser (dim amodi i ddweud yr ymennydd) neu ateb stoc syml e.e. strôc/ dementia. Mae epilepsi wedi'i restru yn y fanyleb, a byddai marciau'n cael eu rhoi am hynny ynghyd â llawer o enghreifftiau eraill.
- Roedd yr atebion i 4bi a 4bii yn fwy siomedig fyth, a'r mwyafrif helaeth o ymgeiswyr yn methu enwi prawf sy'n profi'r golwg e.e. siart darllen, tonometreg (gweler y rhestr hir sydd ym manyleb uned 2). Roedd disgrifio'r prawf oedd wedi'i enwi hefyd yn her; roedd yr erthygl wedi'i rhyddhau ymlaen llaw wedi rhoi cliwiau i'r ymgeiswyr am themâu y gellid eu cysylltu ag uned 2 ond dim ond lleiafrif lwyddodd i ennill unrhyw farciau am y cwestiwn hwn.
- Roedd cwestiwn 6a yn profi sgiliau mathemategol drwy ofyn i'r ymgeiswyr gyfrifo nifer y bobl oedd yn dioddef meigryn yn y DU. Rhoddodd mwyafrif yr ymgeiswyr gynnig ar y cwestiwn hwn, gyda llwyddiant amrywiol. Roedd marc i'w gael am ganfod y canran cywir yn yr erthygl wedi'i rhyddhau ymlaen llaw, ac enillodd llawer o ymgeiswyr 1 marc am 23.3 neu 23%. Roedd rhai yna'n gallu cyfrifo ffigur ac roedd marc i'w gael am y naill neu'r llall o'r canrannau hyn. Dim ond lleiafrif oedd yna'n gallu rhoi'r ateb ar ffurf safonol. Nid yw hyn yn ofyniad newydd, ac mae wedi cael ei brofi mewn cyfresi blaenorol. Mae'n amlwg bod angen i ymgeiswyr ymarfer y math hwn o gwestiwn ar gyfer cyfresi'r dyfodol.
- Roedd angen i ymgeiswyr gymhwyso gwybodaeth i ateb cwestiynau 5b, 5c a 6b. Roedd llwyddiant yr ymgeiswyr wrth ymdrin â'r cwestiynau hyn yn amrywio. Roedd llawer o ymgeiswyr wedi awgrymu mantais/ anfantais gywir i ddeietau seiliedig ar blanhigion, ac roedd hynny'n galonogol, ond roedd nifer mawr o ymgeiswyr wedi methu ennill marciau llawn yma gan nad oedd eu hatebion yn ddigon manwl. Doedden nhw ddim yn enwi bwydydd penodol, e.e. ffrwythau **sitrws**, cigoedd **wedi'u prosesu** ac felly doedden nhw ddim yn ennill marciau yma.

  Roedd bron bob ymgeisydd wedi rhoi cynnig ar ateb 5c, gan restru tri newid i ffordd o fyw gallai rhywun eu gwneud i ddioddef llai o feigrynnau. Fodd bynnag, roedd angen i bob un o'r tri fod yn gywir i ennill un marc ac eto eleni mae ymgeiswyr yn dal i roi 'ymarfer corff, ymarfer corff yn rheolaidd a deiet' fel atebion i'r mathau hyn o gwestiynau. Fel y nodwyd eisoes mewn cyfresi blaenorol, mae angen i ymgeiswyr roi atebion mwy penodol, e.e. gwneud **mwy** o ymarfer corff, bwyta deiet heb lawer o **gigoedd wedi'u prosesu** ac ati yn hytrach nag ateb stoc maen nhw'n meddwl sy'n berthnasol i unrhyw gwestiwn am ddewisiadau ffordd o fyw.

**Adran B**

- Roedd Cwestiynau 8 a 9 yn seiliedig ar gynnwys DD1. Nid oedd ymgeiswyr wedi ateb unrhyw ran o'r ddau gwestiwn yn dda heblaw 8b.
  Er mai dim ond un math o bolysacarid sydd wedi'i enwi ar y fanyleb, roedd mwyafrif yr ymgeiswyr wedi methu sylweddoli mai glycogen oedd hwn yn 8a.

© WJEC CBAC Cyf.

Roedd hyn yn siomedig iawn ac yn dangos diffyg dysgu sylfaenol ar gyfer y cwestiynau galw i gof uniongyrchol.
Roedd nifer yr ymgeiswyr oedd wedi llwyddo i adnabod glwcos ar gyfer 8b yn llawer uwch. Yn anffodus, ar gyfer 8c roedd llawer yn methu enwi'r bond glycosidaidd yn gywir. Galw i gof uniongyrchol a hollol sylfaenol o DD1 oedd y cwestiynau hyn i gyd. Mae cwestiynau tebyg wedi cael eu gosod yn y gorffennol, felly dylai canolfannau wneud yn siŵr eu bod nhw'n defnyddio'r cyn-bapurau wrth adolygu i helpu i wella techneg arholiad yr ymgeisydd.

- Roedd llai o ymgeiswyr na'r disgwyl wedi rhoi cynnig ar gwestiwn 9 eleni, ac roedd bron 18% heb roi cynnig ar 9b – mae hyn yn llawer uwch nag arfer wrth ateb cwestiynau adran B.
  Roedd ymgeiswyr yn ei chael hi'n anodd disgrifio adeiledd niwcleotid DNA – rhywbeth maen nhw'n aml iawn yn ei astudio ar lefel TGAU. Roedd rhoi esboniad ar gyfer 9b yn fwy fyth o her ac ychydig iawn a enillodd ddau farc yma. Roedd ymgeiswyr yn methu dweud oedd yr edafedd DNA yn edafedd copi/ templed/ gwreiddiol ac yna'n methu nodi sut mae'r edafedd newydd yn ffurfio. Yma, eu dull cyfathrebu oedd yn eu gadael nhw i lawr ac roedd llawer yn deall cysyniad dyblygu lled-gadwrol ond yna'n methu mynegi eu hunain mewn ffordd wyddonol er mwyn i unrhyw farciau allu cael eu rhoi.
- Roedd cwestiwn 10 yn seiliedig ar gynnwys DD2. Nid yw'r cynnwys hwn wedi cael ei arholi fel hyn o'r blaen, ac o ystyried bod y rhan fwyaf o'r gwaith hwn hefyd ar lefel TGAU, y disgwyl oedd y byddai'r ymgeiswyr yn cael marciau da yma. Nid oedd nifer mawr o ymgeiswyr wedi rhoi cynnig ar 10a ac o'r rhai a wnaeth, dim ond niferoedd bach oedd yn gallu nodi'n gywir mai cymalau cartilagaidd sydd yn yr asgwrn cefn.
  Roedd mwy wedi rhoi cynnig ar 10b yma; roedd llawer yn methu enwi'r ffurfiad rhwng y fertebrâu i ennill y marc cyntaf ond yn ennill marc am y swyddogaeth. Roedd y ddau bwynt hyn yn cael eu marcio'n annibynnol, ac roedd hynny'n caniatáu i'r ymgeiswyr hynny oedd heb roi enw ennill rhai marciau.
  Roedd y safon yn 10c yn llawer gwell a mwy o ymgeiswyr yn ennill marciau am un o'r ddau fath o gymal. Roedd ymgeiswyr yn aml yn ailadrodd bonyn y cwestiwn ac yn ysgrifennu 'penglog' neu 'pen-glin' fel enwau'r cymalau, ond roedd y cwestiwn yn gofyn iddynt nodi pa fath o gymalau sydd yn y lleoliadau hyn.
- Roedd cwestiwn 11 yn gyfuniad o gynnwys DD3 a DD4. Yma, roedd disgwyl i'r ymgeiswyr ddefnyddio eu gwybodaeth flaenorol am glefyd oedd wedi'i enwi ar y fanyleb, h.y. HIV. Roedd disgwyl i'r ymgeiswyr alw i gof gwaith roedden nhw wedi'i wneud mewn gwersi a'i gymhwyso at 11a. Roedd yn siom gweld bod llawer o ymgeiswyr wedi cael trafferth yma. Roedd atebion da'n rhoi manylion am y modd trosglwyddo gan gynnwys cyfathrach rywiol ddiamddiffyn, trosglwyddo o fam i blentyn a dod i gysylltiad â hylifau'r corff megis gwaed, gyda dull perthnasol o leihau'r risg o haint. Roedd atebion oedd ddim yn ennill marciau naill ai'n methu rhoi digon o fanylion neu'n amlwg iawn yn anghywir; roedd yn ddigon clir bod llawer o ymgeiswyr naill ai heb ddysgu'r gwaith hwn neu heb astudio'r clefyd yn fanwl o gwbl. Dylai canolfannau sicrhau eu bod nhw'n gweithio drwy bob un o'r clefydau sydd wedi'u henwi gan ddilyn gofynion manylion y fanyleb ac arweiniad athrawon.
- Cwestiwn 11b oedd y cwestiwn mwyaf heriol i'r ymgeiswyr. Ychydig iawn o ymgeiswyr enillodd unrhyw farciau yma. Roedd ymgeiswyr yn methu cysylltu'r system ag effaith yr HIV, e.e. mae'n amharu ar y system imiwnedd **ac** mae hyn yn golygu y bydd y dioddefwr yn fwy tueddol o fynd yn wael. Yn lle hynny, roedd ymgeiswyr yn nodi'n syml enw'r system yn y corff roedd yn effeithio arni.
- Roedd cwestiynau 11c-11d(ii) yn seiliedig ar gynnwys DD3 ond hefyd yn profi sgiliau DD4. Roedd ymgeiswyr yn fwy llwyddiannus wrth awgrymu tueddiadau yn y data eleni ac roedd yn ymddangos bod eu sgiliau graff wedi gwella ar gyfer 11d(i). Roedd llawer o ymgeiswyr yn dal i fethu dewis y math cywir o graff eleni, sgìl y dylen nhw fod yn bendant wedi'i ddatblygu erbyn y cam hwn yn eu haddysg.

© WJEC CBAC Cyf.

Roedd rhai'n cael trafferth dewis y raddfa fwyaf priodol er bod maint y papur graff yn golygu y dylai graddfa'r graff fod wedi llenwi'r dudalen.
Roedd cyfrifiadau wedi'u gwneud yn rhesymol dda eleni. Roedd ymgeiswyr naill ai'n gallu gwneud hyn neu'n methu; ychydig iawn enillodd ddau farc. Dylai canolfannau annog ymgeiswyr i ysgrifennu eu gwaith cyfrifo ar gyfer pob cyfrifiad mathemategol.

- Roedd cwestiwn 12 yn archwilio cynnwys DD2, gwaed a'r system cylchrediad gwaed. Unwaith eto, roedd ymgeiswyr yn methu ennill marciau am 12(i) gan nad oedden nhw'n defnyddio'r derminoleg benodol oedd wedi'i hamlinellu yn y canllawiau i athrawon a'r fanyleb; erythrocytau a lewcocytau. Mae hyn yn duedd gyffredin bob tro mae'r cynnwys hwn yn cael ei arholi a gwneir sylw bob tro i atgoffa canolfannau y dylen nhw fod yn dweud wrth ymgeiswyr nad ydyn nhw'n ennill marciau am nodi celloedd coch y gwaed na chelloedd gwyn y gwaed.
- Roedd rhannau 12(b)(i)- (v) yn gofyn i'r ymgeiswyr alw i gof yn bennaf cynnwys sydd i'w gael ar lefel TGAU. Atebodd yr ymgeiswyr rai o'r cwestiynau'n dda, ond nid oedd y mwyafrif yn gallu esbonio'r term 'myogenig' na rhoi enw'r bibell waed sy'n cyflenwi ocsigen a glwcos i gyhyr y galon. Pan ofynnwyd i'r ymgeiswyr ddisgrifio sut mae curiad y galon yn cael ei reoli a'i gyd-drefnu, dim ond nifer bach iawn o ymgeiswyr oedd yn ennill pob un o'r pedwar marc. Roedd diffyg manylion a chynnwys gwyddonol yn yr atebion. Roedd yn galonogol gweld atebion da yn cynnwys disgrifiadau o'r SAN, AVN a sypyn His.
- Roedd 12(c) yn archwilio cynnwys yn ymwneud â'r system lymffatig. Hwn oedd y tro cyntaf i'r cynnwys hwn ymddangos mewn arholiad ac roedd yn siom gweld bod mwyafrif yr ymgeiswyr wedi cael trafferth difrifol i ennill unrhyw farciau. Galw i gof uniongyrchol oedd y cwestiwn, ond dim ond ambell waith y gwelwyd 'dueg' a 'nodau lymff' fel ateb. Atebwyd rhan olaf y cwestiwn yn wael iawn; roedd dros 20% o'r ymgeiswyr heb hyd yn oed roi cynnig ar y cwestiwn ac o'r rhai a wnaeth, doedd dim manylder yn yr atebion o gwbl. Yn lle hynny, roedd ymgeiswyr wedi defnyddio'r diagram a cheisio disgrifio beth oedd yn digwydd o hyn. Roedd yn ofynnol i ymgeiswyr ddefnyddio eu gwybodaeth am ffurfio hylif meinweol a'i chymhwyso at y cwestiwn hwn, nid dim ond ailddatgan brawddegau o'r diagram.
- Roedd cwestiwn 13 yn archwilio cynnwys DD1. Roedd yn braf gweld bod bron bob ymgeisydd wedi rhoi cynnig ar 13(a) a'r rhan fwyaf wedi ennill rhai marciau yma.
Yn rhan (b)(i) roedd angen i ymgeiswyr gymhwyso eu gwybodaeth am y bilen blasmaidd a gwneud braslun. Rhoddwyd marciau am roi haen ddeuol y ffosffolipid ac o leiaf un protein yn y safleoedd cywir, a'u labelu nhw. Roedd llai na 75% o ymgeiswyr wedi rhoi cynnig ar y cwestiwn hwn, a llawer wedi methu labelu eu diagram gan olygu nad oedden nhw'n gallu ennill unrhyw farciau. Roedd atebion da yn cynnwys diagramau syml wedi'u labelu'n glir.
Yn rhan b(ii) roedd llawer o ymgeiswyr wedi enwi dull arall byddai moleciwlau'n gallu ei ddefnyddio i symud ar draws y bilen blasmaidd heb broblem, ond heb lwyddo i roi digon o fanylion gwyddonol i ennill yr ail farc, e.e. cludiant actif (1 marc) symudiad moleciwlau o grynodiad isel i grynodiad uchel (0 marc), yma doedd dim sôn am ddefnyddio ATP/ egni felly ni roddwyd marc.
- Roedd y cwestiwn olaf ar y papur, sef cwestiwn 14, yn cysylltu ag uned 3. Roedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr wedi rhoi cynnig ar y ddwy ran o'r cwestiwn hwn, ond roedd diffyg manylder a chyfathrebu gwael yn golygu nad oedd llawer wedi gallu ennill llawer o farciau. Ar gyfer 14(a) dylai ymgeiswyr fod wedi defnyddio eu profiad o gynnal project ymchwil a rhestru unrhyw ystyriaethau moesegol roedden nhw wedi'u defnyddio yn ystod eu gwerthusiadau moesegol. Roedd atebion da'n nodi cydsyniad gwybodus, gwerth ymchwil, amddiffyn rhag niwed ac ati. Roedd rhan (b) yn gofyn i'r ymgeiswyr ddefnyddio eu profiad ystadegol a byddai atebion fel cyfrifo cymedr, modd neu ganolrif, defnyddio profion ystadegol fel Trefn Spearman, prawf T Student, Chi sgwâr ymhlith eraill wedi ennill marciau. Roedd rhai ymgeiswyr yn mynd yn ddryslyd ac yn nodi lluniadu graffiau neu siartiau cylch, sy'n anghywir.

© WJEC CBAC Cyf.

- Ar y cyfan, roedd safon yr atebion eleni cystal ag mewn cyfresi blaenorol. Mae ymgeiswyr yn dal i wneud gwallau sylfaenol mewn cyfrifiadau mathemategol a graffiau a hefyd yn cael trafferth i gyfathrebu'n effeithiol.

© WJEC CBAC Cyf.

**GWYDDOR FEDDYGOL**

**Lefel 3 UNED 2**

**Haf 2023**

**TECHNEGAU MESUR FFISIOLEGOL**

**Trosolwg o'r uned**

Roedd llawer o ganolfannau wedi cyflwyno gwaith o safon uchel iawn ac roedd eu penderfyniadau asesu'n ddilys ar y cyfan ac yn cyd-fynd â phenderfyniadau'r cymedrolwr. Mae'n ymddangos nad yw rhai canolfannau'n siŵr beth sydd ei angen ar gyfer rhai o'r meini prawf asesu. Edrychwch ar yr holl wybodaeth sydd ar-lein – mae'r fanyleb a'r deunydd enghreifftiol gan ymgeisydd ar y dudalen we Gwyddor Feddygol ac mae'r nodiadau canllawiau i athrawon ar gael ar dudalen we'r pwnc.

Mae Asesiad Mewnol Uned 2: Technegau Mesur Ffisiolegol ar gael ar y wefan ddiogel.

Eto fyth mae llawer o ddeunydd wedi'i gopïo'n uniongyrchol o dudalennau gwe'r GIG a gwefannau Americanaidd sy'n cynnwys gwybodaeth am yr ysgyfaint/asthma, yn ogystal â chopïo oddi wrth ei gilydd. Fel y nodwyd y llynedd, mae'n bwysig rhoi terfyn ar achosion mor amlwg o gopïo gan na fydd ymgeiswyr yn gallu gwneud hynny mewn sefydliad AU/prifysgol. Yn hytrach na defnyddio testun yn uniongyrchol o wefannau meddygol, dylai canolfannau annog ymgeiswyr i ddehongli'r wybodaeth y maent wedi'i darllen a dangos eu gwybodaeth a dealltwriaeth yn eu geiriau eu hunain.

Mae'n gymorth mawr os yw gwaith ymgeiswyr wedi'i anodi'n fanwl. Roedd gwaith yn aml wedi'i gyflwyno mewn mwy nag un ddogfen, ac wyth neu naw gan rai ymgeiswyr; a fyddech cystal â lleihau hyn i un ddogfen lle bo'n bosibl?

**Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol**

**Tasg 1**

Y cwestiwn roedd angen ei ateb ar gyfer MPA1.1 oedd 'Pam gallaf i ddefnyddio'r darn hwn o gyfarpar i fesur y paramedr ffisiolegol hwn?' Er mwyn cyrraedd y band uchaf, roedd disgwyl i ymgeiswyr esbonio'r ffisioleg y tu ôl i'r prawf e.e. cyfeirio at y rhydweli freichiol yn y daflen pwysedd gwaed, y bronci a'r bronciolynnau yn yr anterth llif, a dadbolaru cyhyr y galon yn yr ECG. Doedd dim llawer o sôn am sut mae'r profion yn gweithio h.y. ateb cwestiynau claf "Pam rydych chi'n enchwythu'r gyffen? Beth mae hi'n ei wneud?" Mae angen rhoi hyn yn y daflen ar fformat cryno sy'n addas i glaf.

Ar gyfer MPA1.2 i gyrraedd y band uchaf dylai ymgeiswyr drafod, yn fanwl, gwerthoedd normal ac eithafol ar gyfer pob un o'r mesuriadau ffisiolegol a chysylltu pob un o'r rhain â chlefydau cysylltiedig. Er enghraifft ar gyfer yr ECG, dylai ymgeiswyr drafod cyfradd normal curiad y galon wrth orffwys a thrafod arwyddocâd gwerthoedd annormal i iechyd y claf. Mae disgwyl i ymgeiswyr roi esboniad eu hunain er mwyn ennill marciau, nid yw'n ddigon iddynt gynnwys tabl/diagram o'r rhyngrwyd, heb esboniad, i ennill marciau o dan yr MPA hwn.

© WJEC CBAC Cyf.

Ar gyfer MPA1.3 mae angen i'r cyfyngiadau ganolbwyntio nid yn unig ar y claf ond hefyd ar y dulliau. Er enghraifft o ran pwysedd gwaed tyndra'r gyffen, y maint cywir a sut gallai hyn effeithio ar y canlyniadau, ar gyfer ECG gallai fod angen eillio blew'r frest i sicrhau cysylltiad da rhwng yr electrodau a'r croen. Dydy rhestr o gyfyngiadau ddim yn gyfystyr â disgrifiad. Dydy ailadrodd yr un cyfyngiadau ar gyfer pob claf a phob prawf ddim yn dderbyniol ar gyfer y band uchaf. Mae pob claf yn wahanol a dydy amgylchiadau ddim yr un fath, felly byddai disgwyl i'r ymgeiswyr ystyried gwahaniaethau rhyngddynt; mae gormod yn copïo a gludo'r cyfyngiadau o un claf i'r nesaf. Mae tasg 4 yn cynnig cyfle arall i ehangu ar y cyfyngiadau hyn, felly anogwch yr ymgeiswyr i wneud hynny.

**Tasg 2**

MPA2.1 a 2.2. Mae angen **esbonio'r** ddau MPA hyn **yn llawn** ac yn gywir yn y cynllun ac yna eu hardystio ar gyfer y band uchaf.

MPA2.1 Rhaid i ymgeiswyr esbonio'n fanwl pam mae'n bwysig diogelu gwybodaeth, hysbysu cleifion a darparu gwybodaeth gywir iddynt yn ogystal â phwysigrwydd datgelu gwybodaeth i gyrraedd y bandiau uchaf.

Mae MPA2.2 yn gofyn iddynt **ddisgrifio** ymddygiad tuag at gleifion. Mae'n rhaid i ddisgrifiadau ysgrifenedig o ymddygiad fod yn glir a manwl i gyrraedd y band uchaf, a dylid sôn yn fanwl am ymddygiad, empathi, tôn a defnyddio iaith. Mewn bywyd go iawn, fyddan nhw ddim o reidrwydd yn gwybod pwy sy'n mynd i gerdded drwy'r drws ac mae angen iddyn nhw fod yn ymwybodol o bob math posibl o gleifion.

MPA3.1 – I gyrraedd y band uchaf ar gyfer y cynllun, rhaid iddi fod yn bosibl i drydydd parti ddilyn y gweithdrefnau'n union a rhaid sôn yn glir am yr agweddau allweddol sydd wedi'u rhestru yn y fanyleb e.e. lleoliad, amseru, hysbysu unigolion a thechnegwyr. Byddai'n syniad da i ymgeiswyr ysgrifennu'r cynllun mewn canllaw cam wrth gam yn hytrach na rhyddiaith barhaus. Byddai hyn hefyd yn haws i'r aseswr ei farcio ac i drydydd parti ei ddilyn. Dylai ymgeiswyr gynnwys holiadur i gleifion e.e. pwysau, oed, rhyw, ysmygwr ac ati, er mwyn i glaf ei lenwi a darparu llungopi/sgan fel tystiolaeth. Mae angen i ymgeiswyr hefyd roi manylion ynghylch sut maen nhw'n mynd i hysbysu'r claf am amser, dyddiad, lleoliad yr apwyntiad. Mae angen iddynt hefyd gynnwys unrhyw beth mae angen ei fwcio gyda'r technegydd e.e. cyfarpar, ystafell breifat. (Gallech chi eu hannog nhw i feddwl am y cynllun fel rysáit – â chynhwysion a dull.)

MPA 3.2 yw'r unig MPA sy'n dibynnu ar farciau'r aseswr yn unig, gan mai dim ond yr aseswr sy'n bresennol; ar gyfer pob MPA arall mae'n rhaid i'r ymgeisydd gynhyrchu tystiolaeth yn y dasg berthnasol, a bydd sylwadau'r aseswr yna'n ategu hon. Weithiau roedd y taflenni arsylwadau'n union yr un fath gan bob ymgeisydd. Byddai disgwyl i rai o'r sylwadau fod yn benodol i'r ffordd roedd yr ymgeisydd wedi ymdrin â'r profion.

Yn aml roedd yr ymgeiswyr wedi cofnodi canlyniadau ym MPA3.3, yn unol â'r daflen arsylwadau, ond heb ddim neu brin ddim tystiolaeth o gofnodi canlyniadau ac roedd ymgeiswyr wedi cael marciau yn y band uchaf er nad oedd tystiolaeth o dabl canlyniadau, dim unedau neu ddefnyddio'r unedau anghywir ar eu mesuriadau yn eu profion. Nid oedd llawer o gopïau o daflenni canlyniadau wedi'u llunio yn ystod y profion, naill ai ar bapur nac ar-lein. Dylai'r cyflwyniad gynnwys copi o'r daflen canlyniadau er mwyn i'r cymedrolwr allu gweld y dystiolaeth.

© WJEC CBAC Cyf.

**Tasgau 3 a 4**
MPA4.1 sy'n ymdrin â'r holl faterion sy'n ymwneud â phrosesu data, nid tasg 4.

Ar gyfer MPA4.1, y gofyniad a ddisgwylir yw ailadrodd y mesuriad pwysedd gwaed dair gwaith. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd i brosesu data drwy gyfrifo cymedr. Dylid dangos y dull cyfrifo llawn gan ddefnyddio ffigurau arwyddocaol yn gywir. Mae tri darlleniad hefyd yn darparu data i ddisgyblion fynd ymlaen i drafod ailadroddadwyedd ac allanolion yn eu gwerthusiadau ac awgrymu esboniadau am y rhain (MPA4.3). Mae angen i ymgeiswyr labelu'r ddwy olin ECG â PQRST a chyfrifo nifer y curiadau mewn munud, gan ddefnyddio rhifau blychau mewn 1 eiliad, gan ddefnyddio'r raddfa 1 eiliad. Dylid cynnwys yr olinau yn y cyflwyniad. Yna gellir cyfrifo cymedr y ddwy olin. Dylid cynhyrchu'r cyfrifiadau ar wahân yn Nhasg 3 a dim ond y canlyniadau mae angen eu rhoi yn y ffurflen meddyg teulu (tasg 4). Gellir dadansoddi'r data ar gyfer MPA4.3. Dylent sicrhau eu bod nhw'n ei gwneud yn glir eu bod nhw'n dod o hyd i werth uchaf yr anterth llif. Roedd rhai ymgeiswyr wedi ennill marciau yn y bandiau uchaf er gwaethaf cyfrifiadau anghywir neu ddiffyg labelu ar yr ECG a chyfrifo cymedr yr anterth llif. Roedd rhai o'r cyfrifiadau ECG oedd wedi'u sganio yn anweladwy oherwydd cydraniad gwael. Gellir cyflwyno'r holl waith mathemategol ar wahân yn nhasg 3 a throsglwyddo'r ffigurau terfynol i'r pro fforma ar gyfer tasg 4.

Ar gyfer MPA 4.2 mae angen i ymgeiswyr ffurfio casgliadau dilys a manwl sy'n seiliedig ar dystiolaeth, er enghraifft, gallent ddweud nad yw eu claf yn dioddef isbwysedd na gorbwysedd. Does dim angen i'r ymgeiswyr ddadansoddi'r olinau ECG ar lefel ymgynghorydd cardiaidd; bydd disgrifiad syml gyda'r diagram wedi'i labelu yn ddigon, ynghyd â'r cyfrifiadau nifer y curiadau y munud (nid amcanddyfaliadau) a dadansoddiad.

Ar gyfer MPA 4.3 mae angen gwerthuso'r wybodaeth o'r profion ffisiolegol. Mae'r tair set ddata BP a PF a'r ddau ECG yn rhoi cyfle iddynt i edrych ar yr ailadroddiadau a gofyn pa mor agos at ei gilydd yw'r data; os nad ydynt wedi gwneud hyn, pam ddim? Mae angen i ymgeiswyr drafod sut i wella darlleniadau â gwell techneg, canfod anomaleddau, a chysylltu'r rhain â chyfyngiadau yn y dull yn ogystal ag awgrymu profion pellach o bosibl. Dydy'r MPA hwn ddim yn golygu ailadrodd popeth maen nhw wedi'i nodi yn 4.2 (casgliadau am iechyd cleifion sy'n seiliedig ar ganlyniadau profion) ond ei eirio'n wahanol.

Mewn gwirionedd, caiff MPA4.4 ei asesu drwy gydol yr aseiniad cyfan. Mae angen i ymgeiswyr fod yn llawer mwy ymwybodol o'r ffaith bod yr iaith maen nhw'n ei defnyddio ar gyfer taflenni'r cleifion a'u cyswllt â chleifion yn wahanol iawn i'r iaith bydden nhw'n ei defnyddio i gyflwyno gwaith i feddyg ymgynghorol/pennaeth adran/meddyg teulu. Gallant ddefnyddio terminoleg lawer mwy gwyddonol ar y ffurflen, gan wybod y byddai'n cael ei deall yn llawn.

Does dim angen esbonio'r holl fathemateg eto (gwneir hynny yn nhasg 3, MPA 4.1); yn syml, dim ond gwybod y canlyniadau sydd ei angen ar y meddyg ymgynghorol/unigolyn cyfatebol Yn yr adroddiadau, doedd ymgeiswyr ddim yn defnyddio iaith wyddonol a thechnegol yn gyson. Maent yn dal i allu defnyddio'r termau technegol yn eu casgliadau a'u gwerthusiadau hyd yn oed os nad yw'r claf yn dioddef o gyflwr. Er enghraifft, gallent ddweud nad yw eu claf yn dioddef isbwysedd na gorbwysedd. Ni ddylai ymgeiswyr gymharu canlyniadau cleifion A a B ar unrhyw adeg, na'u rhoi nhw ar yr un pro fforma.

© WJEC CBAC Cyf.

**GWYDDOR FEDDYGOL**

**Lefel 3 UNED 3**

**Haf 2023**

**DULLIAU YMCHWIL**

**Trosolwg o'r uned**

Yn gyffredinol roedd safon y gwaith a gyflwynwyd yn dda ac roedd yr asesiadau gan y canolfannau'n gywir ar y cyfan ac roedd y safonwyr yn cytuno â nhw. Roedd yn braf gweld bod llawer o ganolfannau wedi ymateb i'r sylwadau a wnaethpwyd mewn adroddiadau blaenorol gan safonwyr.

Roedd y gwaith gweinyddol yn gywir gan fwyaf, a'r ymgeiswyr wedi llofnodi taflenni dilysu. Ni ddefnyddiodd rhai canolfannau y fersiwn ddiwygiedig o'r pro fforma Gwerthusiad Moesegol. Roedd gan y rhan fwyaf o'r canolfannau anodiadau clir ar waith yr ymgeiswyr a oedd yn dangos pam roedd bandiau a marciau penodol wedi'u dyfarnu ar gyfer y meini prawf asesu unigol ac yna cafodd y marciau hyn eu trosglwyddo'n gywir i'r Daflen Cofnodi Marciau.

Mae'r broses gymedrolii'n cynnwys defnyddio'r Daflen Cofnodi Marciau i wirio yn erbyn gwaith ymgeiswyr ac unrhyw anodiadau sydd wedi'u hysgrifennu ar yr ymchwiliadau. Mae'n cynnwys llawer o sgrolio. Mae'n gwneud y broses yn llawer haws os caiff gwaith yr ymgeisydd ei lwytho i fyny fel un ddogfen, heb dudalennau gwag na thudalennau â'u pen i lawr.

**Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol**

MPA1.1: Enillodd yr ymgeiswyr gwell farciau Band 3 yma gan roi disgrifiadau clir o'r newidynnau yn ogystal â sut byddant yn cael eu mesur neu, ar gyfer y newidynnau allanol, sut gellir eu hystyried yn eu hymchwiliad. Roedd yr ymgeiswyr gwannach yn aml yn ei chael hi'n anodd mynegi newidynnau mesuradwy neu gynnwys mwy nag un newidyn annibynnol. Mae'n well cyfyngu nifer y grwpiau yn y newidyn annibynnol i ddau gan fod hyn yn gwneud y dadansoddi sy'n dilyn yn symlach. Mae nodi 'agweddau' fel y newidyn dibynnol yn rhy amwys ac mae angen disgrifiad pellach o'r hyn yr ymchwilir iddo.

MPA1.2: Er ei bod yn hanfodol dyfynnu rhagdybiaeth yr ymchwiliad, mae'r marciau'n cael eu rhoi am ei chyfiawnhau. Dylai ymgeiswyr ystyried pam maen nhw wedi dewis ymchwilio i'r rhagdybiaeth hon a pham gallai'r wybodaeth a gynhyrchir fod yn werthfawr. Efallai y bydd yr ymgeiswyr gorau'n cyfeirio at bapur ymchwil neu erthygl mewn papur newydd. Collodd llawer o ymgeiswyr farciau yma drwy sôn am ragdybiaeth ungynffon neu ddwygynffon yn unig.

MPA1.3 ac 1.4: Atebwyd y rhain yn dda ar y cyfan gan y rhan fwyaf o ymgeiswyr. Roedd yr atebion gorau'n cyfeirio at sut gellid dadansoddi'r data, er enghraifft, drwy roi enghreifftiau o gwestiynau fydd yn cynhyrchu data ar gyfer lluniadu graffiau neu y gellir eu defnyddio ar gyfer prawf ystadegol a enwir. Nid oes angen trafod yr holl dechnegau samplu er mwyn ennill marciau ym Mand 3 ar gyfer MPA1.3, dim ond y rheswm dros ddewis y dechneg gan gynnwys manteision ac anfanteision y dull samplu. Dylai ymgeiswyr osgoi rhoi disgrifiadau generig o'u dull samplu heb ei roi yng nghyd-destun eu hymchwiliad.

© WJEC CBAC Cyf.

**Tasg 2: Casglu gwybodaeth**

MPA2.1: I ddyfarnu Band 3, mae angen i'r cynllun fod yn ddigon manwl i gael ei ddilyn gan drydydd parti. Er enghraifft, nid yw'n ddigon dweud y caiff yr holiadur ei rannu. Sut caiff ei rannu? Roedd rhai ymgeiswyr wedi colli'r holl farciau oedd ar gael yma drwy beidio â chynnwys cynllun.

MPA2.2: Roedd mwyafrif yr ymgeiswyr yn gallu cynhyrchu dogfennau da ar gyfer casglu data. Mae'n well cynnwys copi gwag o'r holiadur yn yr adroddiad er mwyn cymedroli'r MPA hwn. Roedd yr ymgeiswyr gorau'n cynnwys cwestiwn oedd yn hollti'r ymatebion i'r grwpiau oedd yn cael eu hystyried yn y newidyn annibynnol ynghyd ag ambell i gwestiwn yn cysylltu â'r newidynnau allanol oedd wedi'u henwi yn eu Tasg 1. Fodd bynnag, mae rhai yn cynnwys gormod o gwestiynau amherthnasol o hyd sydd ddim yn gysylltiedig ag agweddau at y pigiad ffliw. O ganlyniad, roedden nhw'n cynhyrchu llawer gormod o ddata oedd ddim yn gysylltiedig â'r rhagdybiaeth, ac roedd hyn yn gwneud dadansoddi'n anodd. Roedd hefyd yn arwain at ymchwiliadau oedd yn llawer rhy hir. Ar y llaw arall, gwelwyd rhai holiaduron byr iawn oedd yn cyfyngu ar y posibiliadau o ffurfio casgliadau o'r data.

MPA2.3: Dylid annog ymgeiswyr i gasglu eu data crai a'u cyflwyno nhw mewn tablau sydd wedi'u labelu'n addas. Bydd hyn hefyd yn cyfrannu at MPA5.1.

**Tasg 3: Dadansoddi'r data**

Drwy gydol y dasg hon, dylid dangos tystiolaeth bod yr ymgeiswyr yn deall ac yn cymhwyso'r termau a ddefnyddir wrth ddadansoddi data. Os defnyddir prawf ystadegol, dylid defnyddio termau fel graddau rhyddid, tebygolrwydd, gwerth critigol a pharamedrig a'u hesbonio yn y cyd-destun cywir. Mae llawer o ymgeiswyr yn defnyddio'r derminoleg gywir ond nid ydynt yn ei hesbonio neu'r cyfan y maent yn ei wneud yw rhestru'r termau a'u diffinio. Ni fydd hyn yn ennill unrhyw farciau oni chaiff ei ddefnyddio yng nghyd-destun y dadansoddiad. Gallai tystiolaeth ar gyfer MPA 3.1 a MPA 3.2 fod i'w chael yn y cyflwyniad.

Dylai ymgeiswyr esbonio pam maen nhw wedi dewis prawf ystadegol gan ddefnyddio termau fel enwol, categorïaidd neu drefnol i ddisgrifio eu data. Gallai termau eraill gynnwys cydberthyniad, gwahaniaeth ystadegol, tuedd a dosraniad normal. Os oes angen, dylid datgan y rhagdybiaeth nwl cyn cynnal y prawf. Sylwch y dylai'r rhagdybiaeth nwl gynnwys y geiriau 'does dim gwahaniaeth arwyddocaol rhwng …' ; neu yn achos y prawf Chi Sgwâr, 'Does dim gwahaniaeth arwyddocaol rhwng y gwerth gwirioneddol a'r gwerth disgwyliedig…' Os nad yw ymgeiswyr wedi cynnal prawf ystadegol, gallant ennill marciau yma am esbonio unrhyw ddulliau ystadegol maen nhw wedi'u defnyddio e.e. cyfrifo cymedr neu ganran.

Bydd prawf ystadegol sydd wedi'i drefnu a'i ddadansoddi'n dda'n bodloni llawer o'r meini prawf asesu gan gynnwys MPA3.1, MPA4.2 ac MPA4.4. Mae'n dderbyniol defnyddio taenlen Excel i ddadansoddi'r data, ond os yw ymgeiswyr yn dangos camau cyfrifo'r prawf ystadegol bydd hyn yn eu helpu i ennill marciau ar gyfer MPA4.1 ac MPA4.2.

MPA4.1: Mae'n galonogol bod mwy o ymgeiswyr bellach yn defnyddio prawf ystadegol megis Chi Sgwâr neu Mann Whitney yn gywir i ddadansoddi data. Mae llawer o ymgeiswyr yn dal i anghofio dweud pam eu bod wedi dewis prawf penodol, gan golli marciau ar gyfer MPA3.2. Mae rhai ymgeiswyr yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i ddata addas i'w dadansoddi. Gellir defnyddio prawf Chi Sgwâr i ddadansoddi atebion ie/na syml i gwestiynau. Os yw prawf Chi Sgwâr yn cael ei ddefnyddio, mae'n hanfodol cynnwys tabl newidynnau i ddangos sut mae'r gwerth disgwyliedig yn cael ei gyfrifo. Nid dim ond cymedr y data mewnbwn yw hwn. Nid yw gwyriad safonol a ddefnyddir i fesur ystod oedran y cyfranogwyr (y newidyn annibynnol) yn brawf dilys yn y cyd-destun hwn.

© WJEC CBAC Cyf.

Mae llawer o ymgeiswyr yn defnyddio ap neu wefan i gynhyrchu canlyniad Chi sgwâr ond mae angen bod yn glir pa ddata maen nhw'n eu mewnbynnu i gael y canlyniad. Mae'r ymgeiswyr sy'n dangos pob agwedd ar gyfrifo'r dulliau ystadegol yn cael digonedd o gyfle i gyflwyno nodiant perthnasol (MPA 4.4) a'r rhain oedd yr ymgeiswyr a ddangosodd y mwyaf o ddealltwriaeth pam eu bod nhw'n gwneud y gwaith dadansoddi.

MPA4.2: Yr atebion gorau yma yw'r rhai sy'n gallu cysylltu'r casgliadau â'r dystiolaeth ac â'r rhagdybiaeth nwl mewn modd clir a rhesymegol. Mae llawer o ymgeiswyr yn nodi eu bod yn mynd i dderbyn/gwrthod eu rhagdybiaeth gan adael i'r cymedrolwr ddyfalu beth yw eu rhagdybiaeth. Mae'r ymgeiswyr gorau'n cysylltu'r data'n glir â'r grwpiau yn eu newidyn annibynnol.

Ar gyfer MPA4.3, mae angen i'r ymgeiswyr werthuso eu data a/neu eu gweithdrefnau. Gellid cyfeirio yma at nifer y bobl yn y sampl, tuedd, dibynadwyedd y data a gasglwyd ynghyd ag unrhyw welliannau posibl.

MPA4.4: Mae'r defnydd gwell o brofion ystadegol wedi gwneud yr MPA hwn yn fwy hygyrch gyda llawer o ymgeiswyr yn defnyddio nodiant mathemategol a ffigurau arwyddocaol yn gywir.

**Tasg 5: Paratoi cyflwyniad**

Ar gyfer MPA5.1, mae gofyn i ymgeiswyr gyflwyno eu data mewn modd gweledol sy'n addas i gynulleidfa o wyddonwyr a phobl sydd ddim yn wyddonwyr. Mae angen i bob tabl a graff fod wedi'i gynllunio'n gywir. Mae angen penawdau clir ar golofnau tablau (cysylltu ag MPA 2.3 ac MPA4.4) ac mae angen labelu graffiau'n llawn. Roedd llawer o graffiau oedd wedi'u cynhyrchu gan ddefnyddio taenlenni Excel wedi'u cyflwyno heb echelinau wedi'u labelu. Mae'n well cyflwyno data categorïaidd fel siart far yn hytrach na chopïo a chludo siart gylch o ddogfen ar google.

MPA5.2. Mae'r rhan fwyaf o ymgeiswyr yn cyflwyno cyflwyniadau o ansawdd da, gan ddefnyddio PowerPoint fel arfer.

Atgoffir canolfannau bod gwaith enghreifftiol ar gyfer yr uned hon ar gael i'w weld ar wefan ddiogel CBAC ynghyd â chanllawiau ychwanegol am farcio. Sylwch fod yr aseiniad e-sigarét wedi'i dynnu'n ôl ac na chaiff ei dderbyn mwyach. Mae'r aseiniad 'Pigiad Ffliw' yn cynnwys copi diwygiedig o'r pro fforma Gwerthusiad Moesegol. Rhaid ymgynghori â'r Swyddog Pwnc cyn gwneud unrhyw addasiadau i'r aseiniad hwn.

© WJEC CBAC Cyf.

## GWYDDOR FEDDYGOL

## Lefel 3 UNED 4

## Haf 2023

## MEDDYGINIAETHAU A THRIN CLEFYDAU

### Trosolwg o'r uned

### Trosolwg o'r Uned

Mae Uned 4 yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth am wyddor meddyginiaethau, a sut maen nhw'n rhyngweithio â systemau'r corff. Mae hefyd yn cyflwyno canser a geneteg canser yn ogystal â thriniaethau addas ac opsiynau newydd ar gyfer trin canser. Bydd dysgwyr yn datblygu sgiliau cydweithio a chyflwyno yn ogystal â gweithio'n annibynnol i wneud gwaith ymchwil a chynhyrchu gwybodaeth am feddyginiaethau a gwybodaeth am ganser.
Mae'r uned hon yn werth 25% o Ddiploma y cymhwyster ac mae wedi'i rhannu'n dair tasg.

### Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol

**Gweler yr aseiniad enghreifftiol ar gyfer Uned 4 sydd i'w gael ar wefan ddiogel CBAC am fanylion llawn gofynion asesu pob tasg.**

### Tasg 1: Cyflwyniadau i Staff Nyrsio

- Mae tystiolaeth ar gyfer y dasg hon yn cynnwys copi o sleidiau pob cyflwyniad (mae un i bob grŵp yn ddigon cyn belled â'i bod hi'n glir pwy oedd yn gweithio gyda'i gilydd), nodiadau siaradwr gan bob ymgeisydd sy'n dangos yn glir beth oedd eu cyfraniad at y cyflwyniad, cofnod arsylwadau wedi'i gwblhau'n llawn gan yr aseswr a disgrifiad myfyriol wedi'i gwblhau gan yr ymgeisydd.
- Disgwylir i ymgeiswyr weithio mewn grwpiau, lle y bo'n bosibl, er mwyn cwblhau dau gyflwyniad i staff nyrsio.
- Roedd y deunyddiau cyflwyno a gyflwynwyd eleni o safon uchel ac roedd yn amlwg lle roedd ymgeiswyr wedi ennill marciau. Roedd aseswyr wedi anodi gwaith lle roedd yn briodol ac wedi cwblhau'r cofnod arsylwi yn y mwyafrif helaeth o achosion. Darparwyd nodiadau siaradwyr hefyd ac, felly, roedd yn amlwg pa ran roedd pob ymgeisydd wedi'i chyflwyno. Mae hon yn enghraifft o arfer da.
- Pe na bai ymgeisydd wedi darparu cyflwyniad manwl na sylw am y nodiadau siaradwr ar gyfer MPA, mae'n dderbyniol i'r aseswr holi'r ymgeisydd am wybodaeth bellach/ eglurhad ac yna nodi hyn fel tystiolaeth ar y cofnod arsylwadau.
- Wrth gwblhau eu cyflwyniadau, gofynnir i ymgeiswyr yn benodol roi adroddiad myfyriol am eu cyfraniad at waith tîm (MPA4.3). Er y gall yr aseswr wneud sylwadau ar hyn ar y cofnod arsylwadau ac y dylai wneud hynny, mae'r myfyrio yn ddarn penodol o dystiolaeth fel y'i rhestrir yn yr aseiniad enghreifftiol. Felly, disgwylir i'r adroddiadau myfyriol hyn gael eu cynnwys gyda chyflwyniad a deunyddiau siaradwyr yr ymgeisydd ynghyd â'r cofnod arsylwadau. Ni ddylai aseswyr roi unrhyw farciau os nad yw'r adroddiad myfyriol wedi'i gyflwyno.
- Nodwyd bod llawer o ganolfannau wedi hepgor yr adroddiadau myfyriol hyn eleni ond eu bod wedi rhoi marciau i'w hymgeiswyr am eu cyfraniadau o hyd. O ganlyniad, roedd gormod o farciau wedi'u dyfarnu gan rai canolfannau ar gyfer y maen prawf asesu hwn.

© WJEC CBAC Cyf.

- Roedd nifer bach o ganolfannau wedi cynnwys cofnod arsylwadau gwag, sydd ddim yn dderbyniol. Dylid cwblhau'r cofnod arsylwadau'n llawn gan roi gwybodaeth am gyrhaeddiad yr ymgeisydd ar gyfer pob MPA.

**Tasg 2: Gwybodaeth am Bedair Meddyginiaeth.**

- Gofynnir i ymgeiswyr gyflwyno gwybodaeth am bedair meddyginiaeth wahanol ar gyfer tasg 2. Dylai'r meddyginiaethau hyn dargedu tri chlefyd/cyflwr sy'n effeithio ar dair o systemau'r corff a restrir yn y canllawiau i athrawon a dylai'r bedwaredd feddyginiaeth fod yn un sy'n targedu cyfrwng achosol e.e. bacteria, firws neu ffyngau.
- Dylid dewis meddyginiaethau sy'n cael eu defnyddio i drin cyflwr ac nid meddyginiaeth ataliol, e.e. y bilsen atal cenhedlu neu frechlyn. Gwelwyd mewn nifer bach o ganolfannau eto eleni fod meddyginiaethau ataliol wedi'u dewis; nid yw'r rhain yn caniatáu i ymgeiswyr gyflawni'r holl feini prawf asesu a dylid annog ymgeiswyr i beidio â'u defnyddio nhw ar gyfer y dasg hon.
- Mae'n berffaith dderbyniol i ganolfannau ddarparu rhestr o feddyginiaethau fyddai'n addas a gadael i ymgeiswyr ddefnyddio'r rhain; fel hyn, bydd gan yr ymgeiswyr y potensial i gyflawni'r holl bwyntiau marcio. Byddai hefyd yn berffaith dderbyniol bod yr holl ymgeiswyr o ganolfan wedi cael gwybodaeth feddygol am yr un cyffuriau.
- Diolch yn fawr i nifer mawr o ganolfannau oedd wedi cymhwyso'r canllawiau marcio yn gyson ac yn deg wrth asesu'r dasg hon. Fodd bynnag, roedd rhai canolfannau yn amlwg wedi cael anhawster i asesu tasg 2. O ganlyniad, roedd llawer o'r canolfannau hyn wedi rhoi gormod o farciau am y dasg hon. Dylai fod tystiolaeth o MPA penodol i'w gweld ar draws pob taflen (heblaw MPA2.3) i roi marciau yn y band uchaf. Anogir canolfannau i gynhyrchu grid marcio wrth asesu i nodi bod pob MPA wedi'i weld a pha mor fanwl cyn rhoi marc mewn band.
- Rhoddwyd marciau mewn llawer o achosion am MPA4.2, cyfiawnhau'r dull cyfathrebu ond heb ddim tystiolaeth. Fel MPA4.3, os nad yw'r ymgeisydd wedi rhoi cyfiawnhad ni ellir rhoi marciau. Mae angen i'r manylder yn y cyfiawnhad hwn gynnwys rhesymu hefyd ynghylch pam mae'r ymgeisydd wedi dewis y dull hwn ac nid un arall. Gellir rhoi uchafswm o bedwar marc os nad yw ymgeiswyr yn esbonio pam nad ydyn nhw wedi dewis podlediad er enghraifft yn lle taflen.
- MPA 2.1: Yn aml, nid oedd yr esboniadau a ddarparwyd yn cynnwys digon o fanylion am sylfaen foleciwlaidd effaith meddyginiaeth. Rhaid i ymgeiswyr ddarparu gwybodaeth am y rhyngweithio rhwng cyffur a derbynyddion ar gyfer pob meddyginiaeth a'r ffyrdd posibl y mae'r feddyginiaeth yn gweithio. Rhaid i'r rhain fod yn amlwg ar gyfer y wybodaeth am bob meddyginiaeth er mwyn dyfarnu'r band uchaf. Pan fydd rhannau wedi'u hepgor dylid lleihau marciau yn unol â hynny.
- MPA 2.2: Dylai ymgeiswyr gyfeirio'n uniongyrchol at systemau'r corff y mae'r feddyginiaeth yn effeithio arnynt yn hytrach na dim ond trafod yr organ unigol y mae'r feddyginiaeth yn effeithio arno. Ceir rhestr gynhwysfawr o systemau'r corff yn y fanyleb a byddai angen i ymgeiswyr ddewis tair system wahanol yn y corff er mwyn ennill marciau'r band uchaf.
- MPA 2.4: Yn aml, ni wnaeth ymgeiswyr esbonio'n addas nac yn ddigon manwl pam gall meddyginiaethau golli eu heffeithiolrwydd ar gyfer **pob un** o'r meddyginiaethau a drafodir. Os nad yw'r feddyginiaeth mae'r ymgeisydd yn ei hastudio yn colli ei heffeithiolrwydd, mae'n briodol nodi hyn yn eu gwybodaeth feddygol.
- MPA 2.5: Rhoddodd aseswyr farciau uchel eleni eto am restri o gyffuriau sy'n rhyngweithio â'r feddyginiaeth. Nid yw hyn yn ddigonol. Rhaid cymharu'r ffordd mae'r meddyginiaethau yn rhyngweithio â'i gilydd, p'un a yw'r effeithiau yn rhai cadarnhaol neu negyddol.

© WJEC CBAC Cyf.

- MPA 2.7: Yn aml, methodd ymgeiswyr esbonio'n glir **sut** mae adweithiau anffafriol i feddyginiaethau yn digwydd. Yn lle hynny, dim ond rhestr o adweithiau anffafriol posibl a ddarparwyd ganddynt. Os mai dim ond rhestr o adweithiau anffafriol/sgil effeithiau a ddarperir, dim ond marciau band 1 y caiff ymgeiswyr eu hennill ar gyfer y maen prawf asesu hwn.
- Cyfeirir canolfannau at y deunyddiau enghreifftiol sydd ar wefan ddiogel CBAC i gael enghreifftiau o'r uned hon.

**Tasg 3**

- Mae gofyn i ymgeiswyr gyflwyno gwybodaeth am ganser ar gyfer tasg 3. Roedd ansawdd y dasg hon yn dda iawn ar y cyfan eto eleni; roedd mwyafrif y canolfannau'n deall y briff yn dda ac ymgeiswyr yn cynhyrchu gwaith o safon dda. Fodd bynnag, fe wnaeth rhai canolfannau farcio'r dasg hon yn hael a dylent sicrhau yn y dyfodol, wrth ddyfarnu marciau bandiau uwch, bod y wybodaeth a ddarparwyd yn ddigon manwl.
- MPA 3.1: Dyma'r tro cyntaf i ni weld MPA 3.1 yn cael ei farcio'n rhy hael gan rai canolfannau. Er mwyn cyrraedd y band marciau uchaf yma, roedd rhaid i ymgeiswyr gynnwys gwybodaeth ddigon manwl i fodloni'r holl bwyntiau yn y fanyleb/ canllawiau marcio. Dylid cosbi unrhyw hepgoriadau o'r rhestr hon ac ni fyddai'r ymgeisydd yn gallu ennill 4 marc.
- MPA 3.3: Er mwyn i ymgeiswyr ennill marciau'r band uchaf, rhaid iddynt ddisgrifio pob un o'r pum opsiwn ar gyfer triniaeth a restrir yn y fanyleb. Pan na fydd ymgeiswyr wedi disgrifio'r amrywiaeth lawn yn ddigon manwl, dylid dyfarnu marciau iddynt yn unol â hynny. Roedd llawer o ganolfannau'n rhoi 6 marc am wybodaeth nad oedd yn ddigon manwl ac nad oedd yn ymdrin â'r holl opsiynau ar gyfer triniaeth sydd ar gael. Byddai'n rhesymol i dri opsiwn triniaeth sydd wedi'u disgrifio'n dda allu ennill pedwar marc, ond ni fyddai'n bosibl rhoi mwy na hyn.
- MPA 3.4: Y maen prawf asesu hwn oedd yr un gafodd ei farcio'n fwyaf hael ar gyfer y dasg hon o bell ffordd eto eleni. Rhoddodd llawer o aseswyr farciau am ddisgrifiadau o'r gwahanol opsiynau sydd ar gael o ran triniaeth newydd ar gyfer canser. Nid dyna sydd ei angen ar gyfer y maen prawf asesu hwn. Rhaid i ymgeiswyr asesu effaith y driniaeth newydd yn ogystal â darparu rhywfaint o wybodaeth am bob triniaeth newydd a restrir yn y fanyleb. Pan na fydd unrhyw asesiad wedi'i gynnal, ni ddylid rhoi marciau uchel i ymgeiswyr. Roedd enghreifftiau da ar gyfer yr MPA hwn yn cynnwys cymharu manteision/ anfanteision pob un o'r opsiynau triniaeth newydd. Dylid atgoffa ymgeiswyr hefyd mai dim ond asesiadau ar gyfer y triniaethau sydd wedi'u rhestru yn y fanyleb y dylid eu cynnwys ar gyfer yr MPA hwn.
- MPA 4.1: Rhoddwyd marciau yma am y dull o gyfleu'r wybodaeth am ganser. Mae rhai canolfannau'n rhoi marciau uchel iawn am waith na fyddai'n cael ei ystyried yn briodol iawn. Fel y nodwyd yn adroddiad yr uwch gymedrolwr y llynedd, bydd unrhyw ganolfannau sydd wedi rhoi marciau rhy uchel i'r MPA hwn yn cael eu cosbi eleni. Gwelwyd bod rhai aseswyr yn rhoi'r 9 marc llawn am waith oedd ddim wedi'i fynegi'n effeithiol. Gwelwyd bod cyflwyniadau PowerPoint yn cael 8/9 marc; fodd bynnag, ni fyddai'r rhain yn cael eu hystyried y modd mwyaf priodol o ddarparu gwybodaeth i gleifion ac felly fe wnaeth y cymedrolwyr newid y marciau hyn.

**Marcio tasgau**
**Sylwadau am ddulliau marcio mewnol**

- Roedd mwyafrif y canolfannau'n marcio'n gyson ac yn cymhwyso'r canllawiau marcio yn deg ar gyfer eu hymgeiswyr. Roedd hyn yn galonogol.
- Mewn nifer bach o ganolfannau, roedd y marcio mewnol yn hael, a dylai aseswyr gofio cyfeirio at ddeunyddiau enghreifftiol a gofyn i swyddogion arholiadau am gael gweld adroddiad y ganolfan unigol i gael sylwadau penodol i'r ganolfan ynghylch sut i wella.

© WJEC CBAC Cyf.

- Roedd anodi ar y gwaith yn amrywio. Anogir canolfannau i anodi'r gwaith yn y man lle mae'r maen prawf asesu i'w weld. Dylai aseswyr nodi'r MPA ac yna ysgrifennu sylw os oes ei angen. Roedd enghreifftiau da'n cynnwys tanlinellu neu uwcholeuo'r gwaith i ddangos bod y meini prawf asesu wedi'u bodloni. Roedd yr enghreifftiau gorau hefyd yn cynnwys anodiadau wedi'u hysgrifennu â llaw; mae'n arfer da argraffu gwaith yr ymgeisydd, ei anodi â llaw ac yna ei sganio i'w anfon.
- Roedd y gwaith yn gyffredinol drefnus, ond nid oedd nifer bach o ganolfannau wedi trefnu'r gwaith yn briodol i'w sganio. Gwnewch yn siŵr bod gwaith yn nhrefn y tasgau, a bod MPA 4.2 a 4.3 wedi'u lleoli gyda'r dasg gywir i'w sganio. Wrth sganio, gwnewch yn siŵr bod y gwaith i gyd yr un ffordd i fyny ac nad yw'r sganiwr wedi'i osod i sganio dwy ochr y dudalen os mai dalenni un ochr sydd wedi'u defnyddio.
- Nid oedd llawer o dystiolaeth o gymedroli mewnol ar y gwaith. Gwelwyd, ar gyfer rhai canolfannau lle roedd cymedroli mewnol wedi digwydd, bod marciau wedi'u newid i ymgeiswyr lle roedd y marc gwreiddiol a roddwyd gan yr aseswr yn fwy addas.
- Roedd nifer bach o ganolfannau wedi methu â darparu'r dalenni dilysu ar ddechrau'r gwaith. Mae'n un o ofynion y Cyd-gyngor Cymwysterau bod yr holl waith wedi'i ddilysu gan yr ymgeisydd a'r aseswr.

© WJEC CBAC Cyf.

**GWYDDOR FEDDYGOL**

**Lefel 3 UNED 5**

**Haf 2023**

**TECHNEGAU LABORDY CLINIGOL**

**Trosolwg o'r uned**

Mae Gweithgaredd 1 yn asesu MPA 2.1, 2.2, 2.3 a 3.4.

Mae'r tasgau yn y gweithgaredd hwn wedi eu cysylltu. Mae disgwyl i ymgeiswyr gynllunio a chynnal ymchwiliad o sampl, casglu a dadansoddi canlyniadau ac yna eu crynhoi nhw mewn adroddiad ar wahân.

Mae Gweithgaredd 2 yn asesu MPA 1.1, 1.2, 3.1, 3.2, 3.3 a 3.4

Roedd y tasgau hyn yn fwy arwahanol. Roedd tasg 1 yn gofyn i ymgeiswyr gynhyrchu gwybodaeth, sy'n gorfod bod yn gryno, am egwyddorion a ffactorau cyfyngol y tri phrawf. Mae tasg 2 yn gofyn i ymgeiswyr brosesu a dadansoddi data gan ddefnyddio gwerthoedd normadol sydd wedi'u cyflenwi.

Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gallu cwblhau mwyafrif yr asesiad yn dda, ond nid oedd ambell un wedi cwblhau rhai adrannau o'r gwaith.

**Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol**

Eleni, roedd y briff yng nghyd-destun yr haint sy'n achosi osteomyelitis, er bod y tasgau'n debyg iawn i rai a osodwyd yn y gorffennol. Roedd canolfannau oedd wedi defnyddio'r deunyddiau DPP neu'r deunydd enghreifftiol yn tueddu i fod wedi paratoi ymgeiswyr yn dda am yr asesiad.

Gweithgaredd 1
Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gallu ennill marciau ar gyfer pob maen prawf asesu. Roedd y cynllunio'n dda ar y cyfan. Roedd ymgeiswyr llwyddiannus yn gallu gweithio â'u set o samplau ac yn deall beth i brofi amdano a sut i brofi. Roedd ymgeiswyr llai llwyddiannus yn defnyddio profion llinell ar gyfer cytrefi bacteria - dydy hyn ddim yn caniatáu iddyn nhw gyfrifo niferoedd cytrefi. Roedd rhai ymgeiswyr llai llwyddiannus hefyd wedi drysu drwy brofi llawer o samplau diangen.

Roedd cofnodi data'n tueddu i fod yn well na'r llynedd mewn llawer o ganolfannau. Roedd ymgeiswyr llwyddiannus yn esbonio eu canlyniadau'n llawn, ac ymgeiswyr llai llwyddiannus yn colli marciau yn bennaf oherwydd diffyg esboniad o beth roedd angen iddynt ei wneud yn y cyfrifiad, diffyg manwl gywirdeb, ffurf safonol ac unedau.

Gweithgaredd 2
Tasg 1
Roedd llawer o ymgeiswyr yn gallu esbonio sut roedd y profion yn cynhyrchu canlyniadau a beth oedd ystyr y canlyniadau hyn. Roedd ymgeiswyr llwyddiannus yn gallu esbonio, yn eu geiriau eu hunain, egwyddorion y profion yn ddigon manwl i fodloni'r fanyleb, yn ogystal â sut byddai cyfyngiadau penodol yn effeithio ar y canlyniadau. Nid oedd ymgeiswyr llai llwyddiannus yn esbonio sut yn union mae'r prawf yn gweithio; dim ond paragraff generig am y cyfyngiadau roedden nhw'n ei ysgrifennu.

© WJEC CBAC Cyf.

Tasg 2
Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gallu ennill marciau ar gyfer pob maen prawf asesu wrth ddadansoddi data yma. Roedd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn esbonio'n glir sut roedden nhw wedi trin y data a ddarparwyd i lunio echelinau wedi'u labelu'n dda ac yn plotio graffiau â llaw. Roedden nhw yna'n dadansoddi data'r cleifion gan ddefnyddio'r holl wybodaeth yn y wybodaeth normadol a gyflenwyd. Nid oedd ymgeiswyr llai llwyddiannus bob amser yn dangos sut roedd y data i luniadu'r graff wedi'u cynhyrchu. Roedd rhai dan anfantais ar ôl creu graffiau electronig oedd ddim yn caniatáu iddynt fodloni'r holl feini prawf marcio. Nid oedd ambell un wedi defnyddio'r holl ddata normadol yn gywir; roedd y rhain yna'n nodi gwybodaeth anghywir ar gyfer MPA 3.3.

Ymgeiswyr oedd ddim yn cynhyrchu symiau enfawr o waith ailadroddus neu ychwanegol, ac oedd yn cynllunio eu gwaith mewn modd clir, trefnus a chryno, oedd y mwyaf llwyddiannus wrth ennill y marciau MPA 3.4 a asesir drwy'r gwaith i gyd.

**Marcio tasgau**
**Sylwadau am ddulliau marcio mewnol**
Cyflwynodd y rhan fwyaf o ganolfannau y gwaith gofynnol yn gywir. Ddylai'r gwaith ddim bod yn fwy nag ambell ddalen, felly mae styffylu gwaith pob ymgeisydd at ei gilydd yn ddigonol, yn hytrach nag wynebu cost ychwanegol o brynu ffolderi i'r ymgeiswyr. Roedd rhai ymgeiswyr wedi gwneud llawer iawn o waith diangen ac wedi cyfeirio'r ymchwil hwn. Roedd hyn yn wastraff amser a gallai fod wedi effeithio ar ansawdd y gwaith gofynnol.

Dylid nodi ei bod yn hanfodol atodi cofnod arsylwadau athro/athrawes wedi'i lenwi, taflen ddilysu wedi'i llofnodi gan yr ymgeisydd a'r daflen cofnodi marciau at waith yr ymgeiswyr.

Yr unig ran o'r gwaith mae angen ei farcio'n fewnol yw'r cofnod arsylwadau athro/athrawes ar gyfer MPA 2.2. Roedd y rhan fwyaf o ganolfannau wedi cwblhau hwn yn dda a'i gynnwys gyda gwaith pob ymgeisydd.

© WJEC CBAC Cyf.

## GWYDDOR FEDDYGOL

## Lefel 3 UNED 6

## Haf 2023

## ASTUDIAETH ACHOS FEDDYGOL

### Trosolwg o'r uned

Uned synoptig yw hon sy'n asesu cynnwys o bob rhan o'r fanyleb. Mae disgwyl i ymgeiswyr wybod a defnyddio detholiad priodol o sgiliau, technegau, cysyniadau, damcaniaethau a gwybodaeth o bob rhan o gynnwys y cwrs.

Roedd y cwestiynau yn y papur hwn yn seiliedig ar ddeunyddiau wedi'u rhyddhau ymlaen llaw a oedd ar gael bedair wythnos cyn yr arholiad. Roedd ffolder adnoddau'r erthygl wedi'i rhyddhau ymlaen llaw yn cynnwys gwybodaeth am dri chyflwr meddygol; Dirywiad Maciwlaidd sy'n Gysylltiedig ag Oed, Cerrig ar yr Arennau a Leptosbirosis. Roedd disgwyl i ymgeiswyr astudio ac ymchwilio'r wybodaeth a gyflwynir yn y ffolder cyn yr arholiad.

Roedd yn braf gweld bod y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr wedi rhoi cynnig ar bob un o'r cwestiynau. Roedd rhai o'r cyfrifiadau mathemategol wedi'u gwneud yn arbennig o dda gan ddefnyddio'r wybodaeth a roddwyd yn y deunydd wedi'i ryddhau ymlaen llaw yn llwyddiannus i ateb cwestiynau. Mae gwybodaeth ymgeiswyr am yr ymateb imiwn wedi dangos gwelliant dros y blynyddoedd diwethaf er bod llawer yn dal i weld y testun hwn yn heriol. Roedd nifer annisgwyl o ymgeiswyr wedi cael anhawster i ateb cwestiynau ynglŷn â thechnegau arbrofol fel staen Gram a phrofion bwyd.

### Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol

### Cwestiynau 1-5 Astudiaeth Achos 1: Dirywiad Maciwlaidd sy'n Gysylltiedig ag Oed (AMD)

1. I ateb y cwestiwn hwn, roedd angen i'r ymgeiswyr alw gwybodaeth i gof am adeiledd proteinau ac yna cysylltu hynny ag effaith ffactor twf endothelaidd fasgwlar (VEGF) yn y llygad. Roedd llawer o ymgeiswyr wedi ennill marciau llawn am y cwestiynau am adeiledd protein, ond roedd cyfran sylweddol wedi methu disgrifio adeiledd cwaternaidd nac enwi dau fath o fond sydd i'w cael mewn proteinau. Roedd y wybodaeth i ateb y cwestiwn am VEGF ar y deunydd wedi'i ryddhau ymlaen llaw ac atebwyd hwn yn dda gan fwyafrif yr ymgeiswyr.

2. Roedd y cwestiwn hwn yn ymwneud â defnyddio profion a nodir yn y deunydd wedi'i ryddhau ymlaen llaw i roi diagnosis o AMD; cafodd ymgeiswyr gyfle i ymchwilio i hyn cyn yr arholiad.

    (a) Collodd llawer o ymgeiswyr farciau yma am atebion amwys. Dydy tropicamid ddim yn ymledu'r llygad, mae'n ymledu cannwyll y llygad a chafwyd llawer o atebion amwys am archwilio cefn y llygad.

    (b) Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn nodi'n gywir mai tonometreg sy'n mesur gwasgedd yn y llygaid, er bod rhai atebion yn cyfeirio at fesur pwysedd gwaed.

    (c) Dim ond yr ymgeiswyr gorau oedd yn gallu rhoi disgrifiad clir a rhesymegol o brawf angiograffig.

© WJEC CBAC Cyf.

3. Roedd y cwestiwn hwn yn ymwneud â thrin AMD ac yn debyg i gwestiwn 2, roedd yn seiliedig ar gyffuriau a phrofion oedd wedi'u nodi yn y deunydd wedi'i ryddhau ymlaen llaw.

   (a) Roedd mwyafrif yr ymgeiswyr yn gallu disgrifio rôl ranibizumab fel cyffur gwrth-VEGF. Fodd bynnag, roedd llawer yn methu rhoi un o fanteision rhoi'r cyffur hwn mewn pigiad i mewn i'r llygad, gan gyfeirio yn lle hynny at bigiad i mewn i'r wythïen yn osgoi'r system dreulio cyn cyrraedd ei gyrchfan. Roedd ganddynt y wybodaeth gywir, ond doedden nhw ddim yn ei chymhwyso hi'n gywir at y sefyllfa hon.
   (b) Roedd llai o ymgeiswyr yn gwybod am egwyddor therapi ffotodynamig, a llawer ohonynt yn cyfeirio at ei ddefnyddio i drin canser yn hytrach nag i drin AMD.

4. Llwyddodd llawer o ymgeiswyr i ennill marciau llawn yn rhannau a. a b. am gyfrifo canran a chynnydd canrannol. Roedd nifer sylweddol wedi cael anhawster yma ond wedi gallu ennill rhai marciau am ddewis y data cywir o'r wybodaeth a roddwyd yn y cwestiwn. Yn rhan c. roedd angen i'r ymgeiswyr awgrymu pam roedd nifer yr achosion o AMD wedi cynyddu yn y deg mlynedd diwethaf. Gallent fod wedi diddwytho'r ateb i hyn o'r deunydd wedi'i ryddhau ymlaen llaw, ond roedd llawer o ymgeiswyr yn cyfeirio yn anghywir at gynnydd yn nifer yr ysmygwyr.

5. Roedd y cyfrifiad syml hwn yn anodd i lawer o ymgeiswyr. Roedd y mwyafrif yn gallu cyfrifo cost flynyddol ranibizumab gan ddefnyddio gwybodaeth o'r data a roddwyd ar ddechrau'r astudiaeth achos, ond yna'n methu defnyddio'r data a roddwyd yn y cwestiwn i gwblhau'r cyfrifiad.

**Cwestiynau 6-11 Astudiaeth Achos 2: Cerrig ar yr Arennau**

6. I ateb y cwestiwn hwn, roedd angen i ymgeiswyr wybod am adeiledd y basau sy'n bresennol mewn DNA a'r mathau o fwyd sy'n arwain at gynhyrchu mwy o asid wrig fel cynnyrch gwastraff. Roedd ymgeiswyr naill ai'n gallu ennill marciau llawn neu'n dyfalu'n wyllt, yn enwedig pan oedd angen iddynt gysylltu bwyd sy'n cynnwys llawer o brotein â chynhyrchu asid wrig.

7. Roedd mwyafrif yr ymgeiswyr yn gallu ennill marciau llawn yma am nodi'r newidiadau lliw cywir sy'n digwydd mewn profion labordy syml.

8. Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn defnyddio'r data oedd wedi'u cyflwyno ar ddechrau'r astudiaeth achos i nodi cyfaint y bledren a'r hafaliad a ddarparwyd i gyfrifo cydymffurfiad y bledren. Roedd y deunydd wedi'i ryddhau ymlaen llaw'n cyfeirio at ddefnyddio astudiaethau wrodynamig syml i roi diagnosis o gerrig ar yr arennau ond ychydig iawn o ymgeiswyr oedd yn gallu cyfeirio at hyn yn eu hatebion.

9. Roedd mwyafrif yr ymgeiswyr yn gwybod am rôl y cyffur alffa-ataliwr, tamsulosin, wrth helpu i gael gwared â cherrig ar yr arennau. Roedd llai o ymgeiswyr yn gallu ei ddisgrifio fel ymlaciwr cyhyrau neu ddweud pa gyhyrau roedd yn effeithio arnynt. Roedd ambell i ymgeisydd wedi disgrifio ei rôl fel fasoymledydd, sy'n wir, ond mae'n amherthnasol i'r cwestiwn hwn.

10. Roedd y cwestiwn hwn yn gofyn i ymgeiswyr ganfod tair tuedd glir mewn graff. Roedd mwyafrif yr ymgeiswyr yn gallu canfod dwy duedd. Fodd bynnag, roedd llawer yn amwys wrth fynegi bod cerrig ar yr arennau'n fwy cyffredin mewn gwrywod hŷn ac felly'n methu ennill marciau.

© WJEC CBAC Cyf.

11. Roedd y cwestiwn 10 marc hwn yn gofyn am ddisgrifiad o osmoreolaeth. Cafwyd rhai atebion ardderchog a enillodd farciau llawn. Ar y llaw arall, nid oedd ambell i ymgeisydd wedi ennill marciau o gwbl; roedd rhai'n cyfeirio at hormonau'n achosi i rywun fod yn oriog neu at gadw'r corff yn lân.

**Cwestiynau 12-16 Astudiaeth Achos 3: Leptosbirosis**

12. I ateb y cwestiwn hwn, roedd angen gwybodaeth am sut i adnabod bacteria.

    (a) Roedd mwyafrif yr ymgeiswyr yn gallu nodi sut mae bacteria *Leptospira* yn gallu heintio unigolyn iach.
    (b) Roedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn gwybod y camau yn y broses o ddefnyddio staen Gram.
    (c) Yn yr adran hon, roedd angen i ymgeiswyr esbonio pam roedd angen rhai o'r camau yn y broses staenio a sut roedden nhw'n gweithio. Roedd hyn yn fwy heriol. Ychydig iawn oedd yn gwybod bod defnyddio'r alcohol yn cael gwared â'r haen lipopolysacarid ac yn datgelu'r haen peptidoglycan ar gyfer y gwrthstaen.
    (ch) Roedd llawer o ymgeiswyr yn gallu nodi bod maint a siâp bacteria yn nodweddion nodedig ac felly'n gallu ennill marciau llawn am y cwestiwn hwn.

13. Roedd llawer o ymgeiswyr wedi rhoi manteision ac anfanteision defnyddio cyffuriau lladd poen dros y cownter. Fodd bynnag, roedd rhywfaint o ddryswch rhwng cyffuriau ar bresgripsiwn a chyffuriau dros y cownter.

14. Roedd graff ar ddechrau'r astudiaeth achos hon yn rhoi gwybodaeth am grynodiad gwrthgyrff yn y gwaed yn y dyddiau ar ôl heintiad.
    (a) Roedd ymgeiswyr yn defnyddio'r wybodaeth hon yn gywir i esbonio pam na fyddai'n bosibl cynnal prawf ELISA am wythnos ar ôl heintiad, ond nid oedd nifer annisgwyl o fawr o ymgeiswyr yn gwneud y cysylltiad â chrynodiad gwrthgyrff, gan gyfeirio at grynodiad antigen yn lle hynny.
    (b) Roedd llawer o ymgeiswyr wedi methu ennill marciau drwy roi atebion amwys. Er enghraifft dydy 'ymwrthedd i wrthfiotigau' ar ei ben ei hun ddim yn ddigon i ennill marciau heb gyfeirio at roi gormod o wrthfiotigau ar bresgripsiwn yn arwain at ymwrthedd i wrthfiotigau.
    (c) Roedd yn galonogol gweld rhai atebion da i'r cwestiwn hwn am yr ymateb imiwn hylifol, testun sydd wedi bod yn arbennig o heriol yn y blynyddoedd diwethaf. Dylai ateb da gyfeirio at ddethol clonaidd, ehangiad clonaidd, actifadu clonaidd a rôl lymffocytau B. Fodd bynnag, mae gwybodaeth am y testun hwn yn dal i fod yn gyfyngedig a gwelwyd dryswch rhwng yr ymateb imiwn hylifol a phenodol.

15. Roedd y deunydd wedi'i ryddhau ymlaen llaw'n cyfeirio at y gwrthfiotigau docsicyclin a phenisilin. Roedd ymgeiswyr oedd wedi ymchwilio i sut mae'r cyffuriau hyn yn gweithio yn gallu ennill marciau llawn yma. Cyfeiriodd rhai ymgeiswyr yn anghywir at ddocsicyclin yn atal bacteria rhag 'tyfu' yn hytrach nag 'atgynhyrchu'.

16. Roedd yn syndod cyn lleied o ymgeiswyr oedd yn gallu gwneud y cysylltiad rhwng gallu bacteria i atgynhyrchu'n gyflymach mewn dŵr cynhesach yn Jamaica o gymharu â'r dŵr oerach yn y DU, er bod y rhan fwyaf wedi deall bod amgylchedd Jamaica yn gynhesach. Gwnaed rhai cyfeiriadau amwys at y ffaith bod mwy o anifeiliaid gwyllt yn Jamaica.

© WJEC CBAC Cyf.

**Crynodeb o'r pwyntiau allweddol:**

Mae'n arbennig o bwysig defnyddio'r deunydd wedi'i ryddhau ymlaen llaw cyn sefyll yr arholiad hwn. Mae'r canolfannau a'r ymgeiswyr sy'n gwneud orau wedi darllen yr erthygl wedi'i rhyddhau ymlaen llaw ac wedi ymchwilio i wybodaeth am bob astudiaeth achos yn arbennig:

- pa mor gyffredin yw clefyd a symptomau'r clefyd hwnnw
- yr achosion a enwir a'r prosesau a ddefnyddir wrth wneud diagnosis
- triniaethau a enwir
- dull gweithredu unrhyw gyffuriau a enwir

Mae i'r cwestiynau a ofynnir yn y papur elfen synoptig. Felly, mae'n hanfodol bod gan ymgeiswyr wybodaeth a dealltwriaeth o'r holl unedau a astudiwyd yn ystod y cwrs.

Mae angen i ymgeiswyr ddeall y geiriau gorchymyn a ddefnyddir yn y cwestiynau, megis disgrifiwch, esboniwch, cymharwch, rhestrwch ac awgrymwch.

© WJEC CBAC Cyf.

## Eich cefnogi chi

### Manylion cyswllt a chysylltau defnyddiol

Mae ein tîm pwnc cyfeillgar wrth law i'ch cefnogi rhwng 8.30am a 5.30pm o ddydd Llun i ddydd Gwener.
Ffôn: **029 2240 4252**
E-bost: gwyddoniaeth@cbac.co.uk
Tudalen pwnc y cymhwyster: https://www.cbac.co.uk/cymwysterau/gwyddor-feddygol-lefel-3/#tab_keydocuments

Gweler manylion cyswllt defnyddiol eraill yma: Manylion Cyswllt Defnyddiol | CBAC

### Hyfforddiant DPP / Dysgu Proffesiynol

Manteisiwch ar ein cyrsiau DPP/DP ar-lein rhad ac am ddim poblogaidd i gael adborth ar arholiadau ac i ofyn cwestiynau i'n tîm pwnc, a dewch i un o'n digwyddiadau wyneb yn wyneb, sy'n canolbwyntio ar wella addysgu a dysgu, darparu syniadau ar gyfer yr ystafell ddosbarth a datblygu dealltwriaeth o farcio ac asesu.

Mae manylion ynghylch ein holl gyrsiau i'w cael yma: https://www.cbac.co.uk/home/dysgu-proffesiynol/

### Cymwysterau CBAC

Fel corff dyfarnu mwyaf Cymru, mae CBAC yn darparu cymwysterau dwyieithog ac asesiadau dibynadwy a chefnogaeth arbenigol uniongyrchol i ysgolion a cholegau ar draws y wlad. Gyda dros 70 mlynedd o brofiad, rydym hefyd ymhlith y prif ddarparwyr yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Rydym yn cefnogi ein cymunedau addysg trwy ddarparu cymwysterau dibynadwy a chefnogaeth arbenigol, er mwyn rhoi cyfle i'n dysgwyr gyrraedd eu potensial yn llawn.

© WJEC CBAC Cyf.

CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd CF5 2YX
Rhif Ffôn 029 2026 5000
Ffacs 029 2057 5994
E-bost: arholiadau@cbac.co.uk
gwefan: www.cbac.co.uk

[i] ***Noder: lle ystyriwyd bod perfformiad cyffredinol mewn cwestiwn/rhan o gwestiwn yn dda, heb unrhyw feysydd penodol i dynnu sylw atynt, nid yw'r cwestiynau hyn wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.***

© WJEC CBAC Cyf.